

Ysgol Gyfun Gymraeg

BRO MYRDDIN

Welsh Comprehensive School



Croesyceiliog
Caerfyrddin / Carmarthen
SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829

E-bost / E-mail:

swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Pennaeth / Headteacher : Dr Llinos Jones

Mai 2015

Annwyl riant / gwarcheidwad

Ysgrifennaf atoch i rannu gwybodaeth gyda chi am ddatblygiad cyffrous yn hanes yr ysgol. Dymunaf eich hysbysu fel rhieni / gwarcheidwaid presennol yr ysgol am ein dymuniad, o Fedi 2016, i symud ymlaen yn naturiol i newid categori iaith yr ysgol. Ni fydd y datblygiad hyn yn effeithio unrhyw blentyn sydd eisoes yn ddisgybl yn yr ysgol, nac unrhyw blentyn fydd yn dechrau yn yr ysgol cyn mis Medi 2016, ond serch hynny rwy'n eich gwahodd fel rhieni i glywed am y datblygiadau newydd.

Yn dilyn trafodaeth gydag Adran Addysg a Phlant Sir Gâr, ac mewn ymateb i ddymuniad y Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, dymuniad yr ysgol yw symud ar hyd y continiwm iaith gan sicrhau dilyniant addysgol naturiol a phriodol yng Nghynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Y bwriad yw newid categori iaith yr ysgol o gategori 2A (dwyieithog) i gategori CC (Cyfrwng Cymraeg). Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, felly, fyddai yr ysgol gyntaf yn Sir Gâr i fod yn ysgol gyfun benodedig cyfrwng Gymraeg.

Byddwn yn dechrau ar y broses ymgynghori anffurfiol ar y cynnig hwn ar nos Lun, Mehefin yr 8fed a hoffwn eich gwahodd chi i gyfarfod yn neuadd yr ysgol am 6.00 y.h. i drafod y datblygiadau. Fe fydd y broses ymgynghori yn dilyn yr arfer dda a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn cynnwys llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni.

Mae croeso i chi i gyd i ddod i'r noson er hoffem bwysleisio unwaith eto nad yw'r datblygiad yn mynd i gael unrhyw effaith ar addysg unrhyw blentyn sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Petai'r ymgynghoriad yn llwyddiannus dim ond disgyblion a fyddai'n cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi 2016 ac ar ôl hynny a fyddai'n cael eu heffeithio. Mae copi o'r ddogfen ymgynghori drafft ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin neu ar wefan yr ysgol www.bromyrdin.sirgar.sch.uk o dan y botwm Ymgynghoriad – Categori Iaith.

Yn ddiffuant

Dr Llinos Jones
Pennaeth

